

Lleoliadau i gynnal Gweithgareddau'r Gymuned

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Bywydau Creadigol yn poeni am ddiffyg lleoliadau i gynnal gweithgareddau'r gymuned ledled Cymru.

Yn ôl y sectorau chwaraeon a diwylliant, mae effaith y pandemig wedi gwaethygu'r problemau gyda chael mynediad at leoliadau addas i grwpiau cymunedol wrth iddynt ddychwelyd at gynnal gweithgareddau.

Mae gweithgareddau wyneb yn wyneb yn allweddol i gyrraedd nifer fawr o grwpiau demograffig gan greu manteision clir o ran lleihau unigrwydd ac ynysu yn y gymuned.

Ffactorau allweddol

Ar draws chwaraeon a diwylliant, mae'r gofynion wrth ddewis lleoliad yn eithaf tebyg:

1. Hygyrchedd / mynediad
2. Lleoliad a threfniadau teithio
3. Pa gyfarpar a / neu le storio sydd ar gael
4. Fforddiadwyedd
5. Amseroedd agor hyblyg

Y problemau ar hyn o bryd

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae'n anoddach fyth defnyddio neu ddod o hyd i leoliadau addas yn ôl grwpiau cymunedol dan ofal gwirfoddolwyr.

Mewn manau, y rheswm yw bod lleoliadau wedi cau'n barhaol neu fynd i gyflwr gwael. Mae lleoliadau eraill wedi newid sut y maen nhw'n gweithredu – gan leihau capasiti neu ddod o hyd i refeniw newydd. Ac yn ôl rhai grwpiau, nid yw eu lleoliad traddodiadol yn cael ei weld mwyach fel rhywle addas oherwydd bod pobl yn fwy ymwybodol bod angen awyru da a phellhau cymdeithasol.

Mae costau ynni llawer uwch yn cael effaith sylweddol ar gostau lleoliadau a bydd hyn bron yn sicr yn arwain at godi ffioedd lle codir y rhain. Ni fydd rhai grwpiau cymunedol yn gallu talu'r costau hyn.

Mae problemau parhaus gyda chapasiti hefyd. Mae rhai lleoliadau wedi lleihau eu capasiti yn ystod y pandemig gan efallai barhau i gynnig

niferoedd is na chyn y pandemig. Oherwydd hyn, bu'n rhaid i rai grwpiau rannu'n dda er mwyn gallu parhau i gyfarfod yn ddiogel (gan felly achosi costau llogi ychwanegol) ac mae eraill yn gorfod gwrthod aelodau newydd ar ôl cyrraedd uchafswm capasiti'r lleoliad.

Rydym hefyd yn gweld problemau prinder staff yn arwain at agor am lai o oriau, neu nifer lai o bobl yn gallu defnyddio'r lleoliadau.

Mae'r dychwelyd at weithgareddau'n ddarlun cymysg, gyda rhai grwpiau demograffig yn dychwelyd yn fwy araf. Mae pobl yn nerfus ynghylch dychwelyd i fod dan do unwaith eto. Mae tua 20% o'r cyfranogwyr mewn chwaraeon yng Nghymru'n poeni am ddychwelyd at weithgareddau dan do – tybiwn y gallai'r pryderon hyn gael eu lleddfu drwy awyru gwell a mwy modern a buddsoddi yn hyn.

Oherwydd bod lleoliadau cyhoeddus a chymunedol yn parhau i fod ar gau, mae grwpiau'n troi at leoliadau eraill sy'n aml yn ddrytach i'w defnyddio – yn enwedig mewn chwaraeon sy'n golygu nad yw rhai defnyddwyr yn gallu eu fforddio.

Problemau i'r Celfyddydau a Diwylliant

Gall cyfranogi mewn gweithgareddau creadigol yn y gymuned fod o fudd sylweddol i les a chyswllt cymdeithasol ac roedd colli'r celfyddydau cymunedol yn ystod y pandemig yn golled ddofn.

Ar ddiwedd 2021, cynhaliodd Bywydau Creadigol arolwg o grwpiau creadigol a'u hanghenion lleoliad gan adnabod amrediad o broblemau wrth i grwpiau creadigol ddechrau ail-ymgynnull ar ôl cyfyngiadau'r pandemig, ond yn gyffredinol mae grwpiau creadigol lleol yn cael trafferth dod o hyd i leoliadau addas i gyfarfod ynddynt.

Nid yw'r mwyafrif llethol o grwpiau creadigol yn berchen ar eu hadeiladau, ac ar ôl dwy flynedd o fod ar gau, mae llawer wedi gweld gostyngiad mawr yn eu hincwm o golli ffioedd tanysgrifio aelodau a gwerthu tocynnau ond eto'n wynebu costau uwch wrth ddychwelyd at weithgareddau wyneb yn wyneb.

Dyweddodd rai grwpiau eu bod yn cael trafferth dod o hyd i leoliad digon mawr gydag awyru boddhaol; cyfyngiadau ar eu gweithgareddau neu niferoedd a thrafferth dod o hyd i rywle am gost resymol.

Problemau i chwaraeon

Gyda rhai lleoliadau'n segur am gyfnodau hir, maen nhw wedi mynd i gyflwr gwael ac yn wynebu costau atgyweirio sylweddol na fydd y gymuned yn gallu eu cwrdd.

Mae cyfran helaeth o wirfoddolwyr wedi gadael chwaraeon ac yn annhebygol o ddychwelyd wrth i arferion pobl newid. Mae rhai chwaraeon yn wynebu capasiti llawer is o ran hyfforddwyr a staff goruchwyllo, sy'n rhwystr pellach i ddychwelyd at weithgareddau.

Mae rhai chwaraeon yn berchen ar eu hadeiladau, er nid felly'n gyffredinol. Cynhelir gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau, o ganolfannau hamdden awdurdod lleol ac a reolir, i ganolfannau cymunedol a champfeydd preifat. Dibynna'r rhan fwyaf o weithgareddau chwaraeon a chorfforol ar weithredwr yr adeilad i'w cynnal.

Grwpiau ffydd

Mae rhai grwpiau ffydd yn llogi adeiladau a ddarperir gan eraill ac yn cytuno â'r holl sylwadau am y trafferthion gyda llogi a defnyddio lleoliadau cymunedol yn dilyn y pandemig.

Grwpiau ffydd eraill yw darparwyr y lleoliadau hyn. Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yng nghefn gwlad ond hefyd mewn rhannau o'r Cymoedd a rhai ardaloedd trefol, efallai mai grŵp ffydd yw'r prif neu'r unig ddarparwr cyfleusterau cymunedol i eraill. Mae darparwyr grwpiau ffydd yn wynebu'r costau uwch y soniwn amdanynt uchod a rhaid i logi eu hadeiladau fod yn ariannol hyfyw (fel elusennau, ac fel arfer ni all grwpiau ffydd ddarparu cyfleusterau ar golled i ddefnyddwyr nad ydynt yn rhannu eu pwrpasau elusennol). Mae grwpiau ffydd, sy'n cael eu rhedeg yn bennaf gan wirfoddolwyr, hefyd wedi colli gwirfoddolwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, oherwydd oed, salwch neu newid arferion. Mae hyn yn un rheswm (ymhlith llawer) pam fod rhai lleoliadau ffydd yn wyladwrus o ailagor eu lleoliadau i ddefnyddwyr allanol.

Atebion

Er i lawer o grwpiau cymunedol ymateb yn ddychmygus i gyfyngiadau'r pandemig drwy gyfarfod o bell, erbyn hyn mae taer angen hwyluso ailddechrau, yn ddiogel, gweithgareddau corfforol a chreadigol wyneb yn wyneb. Ar yr un pryd, mae cyfle i adeiladu ar y cynnydd yn niddordeb y cyhoedd yn y gweithgareddau iechyd corfforol a chreadigol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnodau clo.

Mae'n greiddiol bwysig bod gweithgareddau corfforol a chreadigol yn cael eu cefnogi i ailafael ynddi a ffynnu ac nad yw penderfyniadau polisi cyhoeddus yn amharu ar gyfle pobl i wneud chwaraeon a bod yn greadigol gyda'i gilydd.

Byddai Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Bywydau Creadigol yn croesawu deialog gyda Llywodraeth Cymru i drafod atebion posib, a allai gynnwys:

- Mae Cronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru'n rhoi grantiau bychain i grwpiau cymunedol i'w helpu i dalu costau gyda defnydd da'n cael ei wneud o'r grantiau yn ystod y pandemig gan helpu nifer o grwpiau i ailddechrau eu gweithgareddau. Gellid treialu'r model hwn yn sector y celfyddydau a diwylliant, ac mewn sectorau eraill fel ffydd.
- Archwiliad o leoliadau cymunedol ar draws Cymru er mwyn deall pa mor eang yw'r problemau gyda mynediad, cyflwr yr adeiladau a'r bygythiad i'n parhad.